# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 14 Ebrill 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch cyswllt rheilffordd Cyflym rhwng Cymru a Llundain? (WAQ51561)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau fy hun. Fodd bynnag, mae cyfarfod gydag Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Drafnidiaeth wrthi'n cael ei drefnu.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa gyfran o gyllid cyfalaf Network Rail sydd wedi cael ei wario yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ51562)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid yw'r wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani ar gael ar hyn o bryd.

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa gynlluniau sydd ganddo i gyllido gwelliannau i Orsaf Reilffordd Stryd Fawr Abertawe ac a wnaiff ddatganiad? (WAQ51574)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae Grŵp Cyflawni Lleol Cymru ar gyfer y Rhaglen Gwella Gorsafoedd Genedlaethol wedi argymell bod Gorsaf Stryd Fawr Abertawe yn gynllun blaenoriaeth. Mae Network Rail wrthi'n pennu cwmpas y gwaith gwella gorau posibl.

Byddaf yn penderfynu a roddir arian atodol ar gyfer y Rhaglen Gwella Gorsafoedd Genedlaethol unwaith y cyflwynir y cynigion i mi.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch cost cyswllt rheilffordd Cyflym rhwng Cymru a Llundain? (WAQ51583)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau ynghylch cost cyswllt rheilffordd cyflym. Mae cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth wrthi'n cael ei drefnu.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ddefnyddio'r tocyn bws am ddim, ar gyfer y rheini sy'n gymwys, i deithio'n helaeth yn Lloegr? (WAQ51584)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid wyf wedi gwneud asesiad o'r fath.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU ynghylch darparu teithio am ddim ar fysiau? (WAQ51585)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU.

**Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu teithio am ddim ar fysiau yng Nghymru? (WAQ51586)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yn 2007-08, darparais bron £47m i gefnogi'r cynllun teithio am ddim i'r henoed a phobl anabl. Rwyf hefyd yn datblygu gwerthusiadau o'r cynlluniau tocynnau rhatach peilot i bobl ifanc 16-18 oed a phobl sy'n ddifrifol anabl.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Helen Mary Jones (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganran cyllideb y Rhaglenni Prentisiaeth sydd wedi'i wario ar hyfforddi'r gweithlu yn y sector cyhoeddus? (WAQ51555)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Amcangyfrifir mai canran cyllideb y rhaglen brentisiaeth a gaiff ei gwario ar hyfforddi'r gweithlu yn y sector cyhoeddus yn 2007/08 yw 1.8 y cant. Bydd cywirdeb gwybodaeth ystadegol y maes pwnc hwn yn gwella'n sylweddol o fis Medi 2008 ymlaen pan gaiff meysydd ychwanegol eu cynnwys yng nghronfa ddata cofnod dysgwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Helen Mary Jones (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau pa Raglenni Dysgu Seiliedig ar Waith fydd yn flaenoriaeth ar gyfer cyllid yn 2008-09? (WAQ51557)

**Jane Hutt:** Rydym yn ymrwymedig i ariannu'r grŵp gwarantu ieuenctid, oedolion di-waith a blaenoriaethau sector a nodwyd. Mae ymrwymiad parhaus i ariannu'r rhaglen adeiladu sgiliau i'r grŵp gwarantu ieuenctid ac oedolion di-waith, ynghyd ag ymrwymiad i ariannu'r gwaith o gyflawni'r fframwaith ar gyfer y sectorau blaenoriaeth. Hefyd mae ymrwymiad parhaus i ariannu rhaglenni fframwaith ar gyfer yr amgylchedd cynwysedig a gofal blynyddoedd cynnar.
Mae blaenoriaethau fframwaith eraill yn cael eu hystyried a chaiff y sector ei hysbysu ohonynt yn y dyfodol agos.

**Helen Mary Jones (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am werth y gyllideb Dysgu Seiliedig ar Waith yng Nghymru ar gyfer 2007-08? (WAQ51558)

**Jane Hutt:** Y gyllideb a gyhoeddwyd ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith yn 2007-08 oedd £100 miliwn. Roedd hyn yn cynnwys £83 miliwn o gyllid craidd, gyda £17 miliwn ychwanegol o Arian Ewropeaidd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A allai'r Gweinidog fanylu a oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw gynigion i newid y ddeddfwriaeth gyfredol yng nghyswllt systemau carthffos preifat? (WAQ51580)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Ar hyn o bryd, gall carthffosiaeth breifat gael ei mabwysiadu gan yr ymgymerwr carthffosiaeth (h.y. un o'r cwmnïau dŵr neu garthffosiaeth) sy'n gwasanaethu'r ardal, gan ddefnyddio pwerau dewisol a nodwyd yn Neddf Diwydiant Dŵr 1991.

Diwygiodd Deddf Dŵr 2003 Ddeddf 1991 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i lunio rheoliadau, mewn perthynas ag ymgymerwyr carthffosiaeth sy'n gwasanaethu Cymru yn bennaf neu'n gyfan gwbl, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ymgymerwyr hynny gydymffurfio â chynlluniau y bydd yn rhaid iddynt ddefnyddio'u pwerau yn unol â hwy i fabwysiadu carthffosiaeth breifat dan amgylchiadau penodol. Byddai rheoliadau o'r fath, i bob diben, yn dileu disgresiwn presennol yr ymgymerwyr o ran mabwysiadu carthffosiaeth breifat.

Daeth y darpariaethau newydd i rym ar 1 Ebrill 2007. Ar 25 Gorffennaf cyhoeddais fy mod wedi cymryd y cam nesaf tuag at drosglwyddo carthffosydd preifat i berchenogaeth ymgymerwyr carthffosiaeth Cymru

drwy gyhoeddi papur ymgynghori perthynol. Roedd y papur ymgynghori ar y cyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Defra yn ceisio sylwadau ar sut i ddatblygu'r polisi hwn, gan gynnwys a ddylid trosglwyddo'r carthffosydd preifat i'r ymgymerwyr carthffosiaeth fesul cam. Roedd hefyd yn edrych ar opsiynau i leihau nifer y carthffosydd preifat newydd, er mwyn osgoi ailadrodd y problemau hyn yn y dyfodol.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 19 Hydref. Mae'r ymatebion yn dal i gael eu hystyried cyn i mi a'm Gweinidog cyfatebol yn Lloegr benderfynu ar y ffordd orau o weithredu.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau nifer y Byrddau Iechyd Lleol sydd wedi ymateb i'r archwiliad o wasanaethau ar gyfer pobl hŷn, sy'n rhan o'r rhaglen waith ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn? (WAQ51546)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau i gyhoeddi canlyniadau'r archwiliad o wasanaethau ar gyfer pobl hŷn, sy'n rhan o'r rhaglen waith ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn? (WAQ51560)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Nid yw'r Adolygiad o weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn wedi cychwyn eto. Ar y cyfan, mae dadansoddiad cynhwysfawr o'r 18 mis cyntaf o weithredu yn dangos y gwneir cynnydd da yn erbyn y camau gweithredu, targedau a therfynau amser cychwynnol. Mae'r dadansoddiad yn deillio o gronfa ddata ar gyfer Cymru gyfan, y Dull Archwilio Hunanasesu (SAAT), sy'n rhoi set helaeth o ddata ar statws gweithredu pob un o'r byrddau iechyd lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac awdurdodau lleol ar gyfer pob un o 10 safon y Fframwaith.

Mae amseru'r Adolygiad yn bwysig gan fod angen iddo gael ei gynnal mewn ffordd a fydd yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gynnydd o ran gweithredu'r Fframwaith ond rhaid iddo beidio â chychwyn yn rhy gynnar rhag iddo danseilio cynnydd na bod yn rhy hwyr fel ei fod yn rhoi cyfeiriad clir ar gyfer datblygu pellach ledled Cymru. Mae hyn yn golygu y cychwynnir ar y gwaith yn 2008 gan ddefnyddio canlyniadau 2007-8 y Dull Archwilio Hunanasesu, ynghyd â gwaith maes enghreifftiol ac Arolygiad cysylltiedig o Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd ar y gweill. Bydd angen i'r casgliadau a wneir gael eu hystyried gan bartneriaethau lleol a'u cynnwys yn eu cynlluniau gweithredu. Bydd y cam cyntaf yn arwain at gam cynhwysfawr ar yr Adolygiad a gaiff ei gwblhau yn 2009 er mwyn gallu nodi argymhellion a gaiff eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer 2010-2011 a thu hwnt.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau pryd y caiff rhaglen sgrinio'r coluddyn ei chyflwyno yng Ngorllewin De Cymru? (WAQ51551)

**Edwina Hart:** Caiff rhaglen sgrinio canser y coluddyn ei chyflwyno'n llawn fesul cam, gan ddechrau gyda phobl rhwng 60 a 69 oed, yna pobl rhwng 70 a 74 oed ac yn olaf bobl rhwng 50 a 59 oed. Mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn bwriadu cychwyn cyflwyno'r rhaglen ym mis Hydref gan anfon gwahoddiadau ledled Cymru a fydd yn cynnwys De- orllewin Cymru.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau a gymerwyd i annog rhagor o bobl i gymryd rhan yn rhaglen sgrinio'r coluddyn? (WAQ51552)

**Edwina Hart:** Mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn datblygu strategaeth gynhwysfawr i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o raglen sgrinio canser y coluddyn ac i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan, mewn ymgynghoriad â grwpiau defnyddwyr posibl, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r sector

gwirfoddol. Yn benodol, mae'n mynd i'r afael â'r angen i gynnwys dynion, gan mai hon yw'r rhaglen sgrinio genedlaethol gyntaf i wahodd dynion, yn ogystal â mynd i'r afael â'r grwpiau 'anodd eu cyrraedd' traddodiadol fel y digartref a phobl ag anawsterau dysgu. Caiff y strategaeth ei rhoi ar waith o ddifrif ychydig cyn i'r rhaglen sgrinio ddechrau ym mis Hydref.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth a wneir ar gyfer offer i raglen sgrinio'r coluddyn? (WAQ51553)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynlluniau i achredu nifer ddigonol o golonoscopyddion ar gyfer rhaglen sgrinio'r coluddyn? (WAQ51554)

**Edwina Hart:** Fel rhan o'r broses gynllunio, caiff anghenion hyfforddi staff a gofynion o ran cyfarpar eu hystyried. Mae Bwrdd Llywio Sgrinio'r Coluddyn wedi cytuno ar fodel asesu ac achredu ar gyfer sgrinio colonoscopyddion yng Nghymru, a fydd yn cynnwys archwilio arfer presennol colonoscopyddion. Bydd colonoscopyddion sgrinio posibl yn cael eu henwebu gan eu Hymddiriedolaeth a chaiff y ceisiadau eu hasesu gan Sgrinio Coluddion Cymru a threfnir achredu'r colonoscopyddion a ddewiswyd. Yn ystod y cam cyflwyno cychwynnol, bydd angen 20 o golonoscopyddion achrededig ledled Cymru, gydag wyth o'r rhain wedi'u hachredu fel aseswyr hefyd. Mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre, a fydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, yn hyderus y gellir achredu'r nifer hwn o golonoscopyddion o fewn y terfyn amser.

O ran cyfarpar, fel rhan o'r adolygiad sylfaenol o wasanaethau colonosgopi, a gynhaliwyd gan dîm prosiect Sgrinio Coluddion Cymru, gofynnwyd i Ymddiriedolaethau roi manylion am y dyfeisiau colonosgopi a gaiff eu defnyddio ar hyn o bryd, eu hoedran a'r dyddiadau y bwriedir cael rhai newydd. Ni ddatgelwyd unrhyw broblemau o ran hen gyfarpar neu gyfarpar anaddas. Mae cael dyfeisiau colonosgopi newydd pan fydd angen yn rhan o gynllun amnewid cyfalaf pob Ymddiriedolaeth a fu'n destun asesiad risg. Byddem yn parhau i ddisgwyl i glinigwyr ddilyn canllawiau cenedlaethol a chanllawiau'r cynhyrchwr sydd ar gael ar ddadheintio endosgopau. Sefydlwyd is-grŵp o Grŵp Dadheintio Cymru Gyfan yn ddiweddar o dan arweiniad Ystadau Iechyd Cymru, i edrych ar faes cyfan rheoli heintiau o ran defnyddio endosgopau ym mhob lleoliad gofal iechyd.

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y broses o benodi cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol i'r Byrddau Iechyd Lleol newydd? (WAQ51565)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfansoddiad y paneli cyfweld ar gyfer penodi cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol i'r Byrddau Iechyd Lleol newydd? (WAQ51566)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer penodi cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol i'r Byrddau Iechyd Lleol newydd? (WAQ51567)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr oedi cyn penodi cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol i'r Byrddau Iechyd Lleol newydd? (WAQ51568)

**Edwina Hart:** Nid yw'r BILlau yn cyflogi Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol. Caiff Swyddogion a'r rhai nad ydynt yn Swyddogion eu penodi o fewn BILlau. Ar hyn o bryd, mater i'r BILl yw'r penodiadau hyn. Ni allaf roi sylw ar drefniadau'r dyfodol hyd nes i mi dderbyn ac ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am leoliad y cyfleusterau gweinyddol ar gyfer y Byrddau Iechyd Lleol newydd? (WAQ51569)

**Edwina Hart:** Ni allaf ateb y cwestiwn hwn hyd nes i mi dderbyn ac ystyried yr ymatebion i'r papur ymgynghori a gyhoeddwyd ar 2il Ebrill 2008.

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau faint o blant a phobl ifanc ag awtistiaeth yng Nghymru sydd â mynediad at weithiwr allweddol? (WAQ51587)

**Edwina Hart:** Ni chedwir gwybodaeth yn ganolog gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau pa awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gweithredu Cynlluniau Gweithio Allweddol ar gyfer plant a phobl ifanc ar hyn o bryd a sut y maent yn gweithredu'r rhain? (WAQ51588)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cymryd i sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth, gan gynnwys plant ag awtistiaeth, yn cael mynediad at weithiwr allweddol - fel yr amlinellwyd yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth? (WAQ51589)

**Edwina Hart:** Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru yn strategaeth 10 mlynedd, sy'n gosod safonau cenedlaethol er mwyn gwella gwasanaethau a lleihau amrywiaeth yn narpariaeth gwasanaethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Disgwylir i gamau allweddol, sy'n ategu'r safonau, gael eu gweithredu dros y 10 mlynedd.

Datblygwyd dull archwilio hunanasesu (SAAT) yn seiliedig ar y we i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc Awdurdodau Lleol ei ddefnyddio er mwyn nodi cynnydd o ran gweithredu camau'r Fframwaith. Mae data SAAT ar gyfer 2006/07 yn dangos bod 18 o 22 o awdurdodau lleol nawr yn darparu gwasanaeth gweithio allweddol. Ar hyn o bryd, nid oes system unffurf o ddarpariaeth yn ei lle ledled Cymru, gan nad yr un asiantaethau sy'n darparu'r gwasanaeth ym mhob ardal.

Mae'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi rhyddhau arian i gefnogi Rhwydwaith Cydgysylltu Gofal y DU i reoli recriwtio, hyfforddiant a chymorth ar gyfer nifer o swyddi gweithwyr pontio allweddol ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn dilyn cyhoeddiad a wnaed gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ym mis Tachwedd 2007 a nododd fod cyfanswm o £1.5 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2008/09 i 2010/11 ar gael i ddarparu'r gweithwyr pontio allweddol ychwanegol.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau y bydd y cynllun gweithredu Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig arfaethedig yn rhoi sylw i'r anawsterau y mae oedolion ag awtistiaeth yn eu hwynebu ar hyn o bryd wrth gael gafael ar wasanaethau a chefnogaeth? (WAQ51590)

**Edwina Hart:** Bwriad y Cynllun Gweithredu Strategol drafft yw gwella comisiynu a darparu gwasanaethau i unigolion o bob oed ar y Sbectrwm Awtistig. Yn y pen draw, cyfrifoldeb awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yw asesu anghenion gofal oedolion ar y sbectrwm awtistig a darparu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion asesedig. Disgwyliaf i'r Cynllun Gweithredu Strategol terfynol gael ei gyhoeddi yn y Gwanwyn.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ffioedd ar gyfer tystysgrifau meddygol i SSAFA Forces Help? (WAQ51598)

**Edwina Hart:** Mae meddygon teulu yn rhoi tystysgrifau meddygol at ddibenion budd-daliadau salwch o dan reoliadau a gaiff eu pennu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Deallaf fod Cymdeithas Cymorth y Lluoedd (SSAFA) dan rai amgylchiadau yn gofyn am archwiliad meddygol i gadarnhau y bydd y cleient

a gynorthwyir ganddi yn gallu defnyddio’r cyfarpar y bwriedir ei ddarparu. Dan yr amgylchiadau hyn nid yw archwiliad meddygol yn dod o dan Gontract GIG meddygon teulu.